Cyllid & Tollau EM

# Ffurflen Dreth 2009

## Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009

## Eich Ffurflen Dreth

Mae'r Hysbysiad hwn yn gofyn i chi yn unol â'r gyfraith , i anfon datganiad o'ch incwm trethadwy ac enillion cyfalaf, ac unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt, am y flwyddyn o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009.

### Dyddiadau cau

Rhaid i ni dderbyn eich Ffurflen Dreth erbyn naill ai:

- **31 Hydref 2009** - os ydych yn bwriadu dychwelyd Ffurflen Dreth **bapur**, neu
- **31 Ionawr 2010** - os ydych yn bwriadu cyflwyno **ar-lein**

Sylwer ar y dyddiad cau newydd ar gyfer Ffurflenni Treth papur.

Codir **cosb o £100** os derbynnir eich Ffurflen Dreth ar ôl y dyddiad cau priodol. Os talwch yn hwyr codir llog ac o bosib gordal.

I gyflwyno ar-lein ewch i **www.hmrc.gov.uk** cliciwch *Cymraeg* a dilynwch y cyfarwyddiadau.

### Sut i gwblhau'r ffurflen hon

Dyluniwyd y ffurflen hon er mwyn ei darllen gan beiriant - dilynwch y rheolau isod i sicrhau y caiff y Ffurflen Dreth ei darllen yn gywir.

Defnyddiwch inc du a phriflythrennau

Rhowch linell drwy unrhyw gamgymeriadau ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir oddi tano




Talgrynnwch y dreth a dalwyd i fyny: Byddai £4,700.21 yn £4,701

- Nodwch eich ffigurau mewn punnoedd llawn - anwybyddwch y ceiniogau. Talgrynnwch eich incwm i lawr a thalgrynnwch eich treuliau a'r dreth a dalwyd i fyny - bydd hyn yn fanteisiol i chi.
- Os na fydd blwch yn gymwys i chi, gadewch ef yn wag - peidiwch â rhoi llinell drwy flychau gwag nac ysgrifennu unrhyw beth arall.

## Dechrau ar eich Ffurflen Dreth

Cyn eich bod yn dechrau ei chwblhau, edrychwch drwy eich Ffurflen Dreth er mwyn sicrhau bod adran yno ar gyfer eich holl incwm a'ch holl hawliadau - efallai y bydd angen rhai tudalennau atodol ar wahân arnoch (gweler tudalen TR2 a thudalennau TRG 2 i 6 yn y Canllaw i'r Ffurflen Dreth). Os bydd angen cymorth arnoch defnyddiwch y Canllaw, ffoniwch y rhif a welir uchod neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**.

### Eich manylion personol

1 Eich dyddiad geni - *mae'n helpu i gael eich treth yn gywir DD MM BBBB*

2 Eich enw a'ch cyfeiriad - *os ydy'n wahanol i'r hyn sydd ar flaen y ffurflen hon. Ysgrifennwch y manylion cywir o dan y rhai anghywir a rhowch 'X' yn y blwch*

3 Eich rhif ffôn

4 Eich rhif Yswiriant Gwladol - *gadewch yn wag os dangosir y rhif cywir uchod fel eich 'Cyfeirnod Treth'*

## Yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn eich Ffurflen Dreth

Er mwyn datgan eich incwm a'ch enillion trethadwy yn **llawn** ar gyfer y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009, efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau rhai **tudalennau atodol ar wahân**. Atebwch y cwestiynau canlynol drwy roi 'X' yn y blwch priodol.

1 **Cyflogaeth**

Os oeddech yn gyflogai, yn gyfarwyddwr neu'n ddeiliad swydd neu'n weithiwr i asiantaeth yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009, a oes angen i chi gwblhau tudalennau *Cyflogaeth*? Darllenwch dudalen TRG 2 a TRG 3 y canllaw cyn ateb.

Llenwch dudalen *Cyflogaeth* ar wahân ar gyfer pob cyflogaeth, swydd fel cyfarwyddwr ac ati, y mae angen i chi gwblhau tudalen *Cyflogaeth* ar ei chyfer a nodwch nifer y tudalennau rydych yn eu cwblhau.

Oes ☐ Nac oes ☐ Nifer ☐

2 **Hunangyflogaeth**

A oeddech yn gweithio i chi eich hun (ar eich liwt eich hun neu mewn hunangyflogaeth) yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009? (Atebwch 'Oeddwn' os oeddech yn 'Enw' yn Lloyd's). Llenwch dudalen *Hunangyflogaeth* ar wahân ar gyfer pob busnes a nodwch nifer y tudalennau rydych yn eu cwblhau.

Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐ Nifer ☐

3 **Partneriaeth**

A oeddech mewn partneriaeth? Llenwch dudalen *Partneriaeth* ar wahân ar gyfer pob partneriaeth yr oeddech yn bartner ynddi a nodwch nifer y tudalennau rydych yn eu cwblhau.

Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐ Nifer ☐

4 **Eiddo yn y DU**

A gawsoch unrhyw incwm drwy osod eiddo yn y DU (gan gynnwys rhenti ac incwm arall o dir rydych yn ei berchen neu ei osod dan brydles)?

Do ☐ Naddo ☐

5 **Tramor**

Os:

- cawsoch unrhyw incwm tramor, neu enillion incwm;
- cawsoch neu os gallech fod wedi cael (yn yr ystyr mwyaf eang), incwm neu daliad cyfalaf neu fudd gan berson sydd dramor o ganlyniad i unrhyw asedion a drosglwyddwyd;
- ydych am hawlio rhyddhad am dreth dramor a dalwyd; darllenwch y nodiadau ar dudalennau TRG 3 a 4 i benderfynu a oes rhaid i chi lenwi'r dudalen *Tramor*.

A oes angen i chi gwblhau'r dudalen *Tramor*?

Oes ☐ Nac oes ☐

6 **Ymddiriedolaethau ac ati**

A gawsoch neu a ydym yn ystyried eich bod wedi cael incwm o ymddiriedolaeth, setliad neu ystâd person ymadawedig?

Do ☐ Naddo ☐

7 **Crynodeb Enillion Cyfalaf**

Os gwnaethoch waredu unrhyw asedion trethadwy (gan gynnwys er enghraifft, stociau, cyfranddaliadau, unedau mewn ymddiriedolaeth uned, tir ac eiddo, ewyllys da mewn busnes), neu a oedd gennych unrhyw enillion trethadwy, neu a ydych am hawlio colled ganiataol neu wneud unrhyw gais arall neu ddewis, darllenwch dudalen TRG 5 y canllaw i benderfynu a oes angen i chi gwblhau tudalen *Crynodeb Enillion Cyfalaf*.

A oes angen y dudalen Crynodeb Enillion Cyfalaf arnoch?

Oes ☐ Nac oes ☐

8 **Preswylfan, sail trosglwyddo ac ati**

A oeddech, am ran o'r flwyddyn neu am y flwyddyn gyfan hyd at 5 Ebrill 2009, yn un neu ragor o'r canlynol - dibreswyl, nid fel arfer yn preswylio, nid yw eich domisil, yn y DU, neu a oeddech yn breswylydd deublyg yn y DU ac mewn gwlad arall?

Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐

9 **Tudalennau atodol**

Os ateboch yn gadarnhaol i un o Gwestiynau 1 i 8, edrychwch **drwy'r ffurflen hon** er mwyn sicrhau bod tudalen sy'n delio gyda'r math hynny o incwm ac ati. A oes angen i chi gael a chwblhau tudalennau atodol ychwanegol.

Oes ☐ Nac oes ☐

Os atebwch 'Oes' ewch i **www.hmrc.gov.uk** i'w llwytho i lawr neu ffoniwch **0845 302 1489** a gofynnwch am y dudalen berthnasol.

*Dylid datgan unrhyw incwm a rhyddhad treth sy'n llai cyffredin (sydd heb eu cynnwys yng nghwestiynau 1 - 8), a manylion cynlluniau osgoi treth ar y tudalennau ar gyfer '**Gwybodaeth ychwanegol**' a amgaewyd gyda phecyn y Ffurflen Dreth. A oes angen i chi gwblhau tudalennau **Gwybodaeth Ychwanegol**?*

Oes ☐ Nac oes ☐

## Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr

Darllenwch dudalen TRG 6 yn y Canllaw cyn cwblhau blychau 1 a 2

1 Os cawsoch hysbysiad gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn eich hysbysu bod ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr sy'n amodol ar incwm wedi dechrau cyn 6 Ebrill 2009, rhowch 'X' yn y blwch.

☐

2 Os ydy'ch cyflogwr wedi didynnu ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, nodwch y swm a ddidynnwyd

£ ☐☐☐☐☐☐☐☐ . 0 0

## Incwm

# Llog ac ati a difidendau'r DU

1 Llog o fanc, cymdeithas adeiladu, ymddiriedolaeth uned ac ati y DU, a drethwyd yn barod - *nodwch y swm net ar ôl didynnu treth*

£ ______ . 0 0

2 Llog y DU nas trethwyd ac ati (symiau na chawsant eu trethu o gwbl) - *nodwch y cyfanswm*

£ ______ . 0 0

3 Difidendau o gwmnïau'r DU - *peidiwch â chynnwys y credyd treth. Rhowch Ddifidendau Incwm o Eiddo (PID) ym mlwch 15 isod*

£ ______ . 0 0

4 Difidendau o ymddiriedolaethau uned awdurdodedig a chwmnïau buddsoddi penagored - *peidiwch â chynnwys y credyd treth. Dylech gynnwys PID ym mlwch 15 isod*

£ ______ . 0 0

5 Difidendau tramor (hyd at £300) - *y swm mewn sterling cyn didynnu treth dramor. Peidiwch â chynnwys y swm hwn yn y tudalennau Tramor*

£ ______ . 0 0

6 Treth a ddidynnwyd o ddifidendau tramor (y cyfwerth mewn sterling)

£ ______ . 0 0

# Pensiynau, blwydd-daliadau'r DU a budd-daliadau eraill y wladwriaeth a gafwyd

7 Pensiwn y wladwriaeth - *y swm sy'n ddyledus am y flwyddyn (nid y swm wythnosol)*

£ ______ . 0 0

8 Cyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth

£ ______ . 0 0

9 Y dreth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 8

£ ______ . 0 0

10 Pensiynau (heblaw Pensiwn y Wladwriaeth), blwydd-daliadau ymddeol a mân daliadau trethadwy - *rhowch fanylion am y talwyr, y symiau a dalwyd a'r dreth a ddidynnwyd ym mlwch 19 ar dudalen TR6*

£ ______ . 0 0

11 Y dreth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 10

£ ______ . 0 0

12 Budd-daliad Analluogrwydd trethadwy - *y cyfanswm cyn didynnu treth*

£ ______ . 0 0

13 Y dreth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 12

£ ______ . 0 0

14 Cyfanswm unrhyw bensiynau neu fudd-daliadau trethadwy eraill y Wladwriaeth

£ ______ . 0 0

# Incwm arall y DU nas cynhwyswyd ar dudalennau atodol

Peidiwch â defnyddio'r adran hon ar gyfer incwm y dylid ei ddatgan ar dudalennau atodol. Dylid cynnwys cynlluniau cyfranddaliadau, giltiau, stociau difidend, enillion ar yswiriant bywyd a rhai mathau eraill o incwm ar y tudalennau ar gyfer *'Gwybodaeth ychwanegol'* ym mhecyn y Ffurflen Dreth.

15 Incwm trethadwy arall - *cyn didynnu treuliau a threth*

£ ______ . 0 0

16 Cyfanswm y treuliau caniataol - *darllenwch dudalen TRG 13 y Canllaw*

£ ______ . 0 0

17 Treth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 15

£ ______ . 0 0

18 Buddiant o asedion roeddech yn eu perchen yn flaenorol - *darllenwch dudalen TRG 14 y Canllaw*

£ ______ . 0 0

19 Disgrifiad o'r incwm ym mlychau 15 a 18 - *rhowch fanylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR6, os nad oes digon o le yma*

## Rhyddhad Treth

Mae lwfans pâr priod (os cawsoch chi, eich priod neu eich partner sifil eich geni **cyn** 6 Ebrill 1935) a rhyddhad llai cyffredin ar y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol* a amgaewyd ym mhecyn y Ffurflen Dreth.

### Cyfrannu i gynlluniau pensiwn cofrestredig a chynlluniau pensiwn tramor

Peidiwch â chynnwys taliadau a wnewch i gynllun pensiwn eich cyflogwr sy'n cael eu didynnu o'ch cyflog cyn iddo gael ei drethu neu daliadau a wnaed gan eich cyflogwr. Mae blychau ar gyfer datgan taliadau a godwyd ar gynilion pensiwn a chyfandaliadau trethadwy o gynlluniau pensiwn tramor ar y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol*.

1 Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig pan hawlir rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan ddarparwr eich pensiwn (a elwir yn 'rhyddhad wrth y ffynhonnell'). Nodwch y taliadau a'r dreth ar y gyfradd sylfaenol

£ . 0 0

2 Taliadau i gontract blwydd-dal ymddeol pan na chaiff rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol ei hawlio gan ddarparwr eich pensiwn

£ . 0 0

3 Taliadau i gynllun eich cyflogwr na chawsant ei didynnu o'ch cyflog cyn treth

£ . 0 0

4 Taliadau i gynllun pensiwn tramor nad yw wedi ei gofrestru yn y DU sy'n gymwys am ryddhad treth ac na chawsant eu didynnu o'ch cyflog cyn treth

£ . 0 0

### Cyfrannu at elusen

5 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009

£ . 0 0

6 Cyfanswm y taliadau unigol a gynhwyswyd ym mlwch 5

£ . 0 0

7 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009 ond a gawsant eu trin fel petaent wedi eu cyfrannu yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2008 - *darllenwch dudalen TRG 17 y Canllaw*

£ . 0 0

8 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl 5 Ebrill 2009 ond sydd i'w trin fel petaent wedi eu cyfrannu yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009 - *darllenwch dudalen TRG 18 y Canllaw*

£ . 0 0

9 Gwerth unrhyw gyfranddaliadau neu warantau a roddwyd i elusen

£ . 0 0

10 Gwerth unrhyw dir ac adeiladau a roddwyd i elusen

£ . 0 0

### Lwfans Person Dall

11 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych wedi eich cofrestru'n ddall ar gofrestr awdurdod lleol neu gofrestr arall

12 Nodwch enw'r awdurdod lleol neu gofrestr arall

13 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am gael gwarged lwfans eich priod neu'ch partner sifil

14 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am i'ch priod neu'ch partner sifil gael gwarged eich lwfans chi

## Cwmnïau gwasanaeth

1 Os gwnaethoch ddarparu eich gwasanaethau drwy gwmni gwasanaeth (cwmni sy'n darparu eich gwasanaethau personol i drydydd parti) nodwch gyfanswm y difidendau (gan gynnwys y credyd treth) a chyflog (cyn didynnu treth) y tynnwyd gennych o'r cwmni yn y flwyddyn dreth - *darllenwch dudalen 19 y canllaw*

£ . 0 0

# Gorffen eich Ffurflen Dreth

**Cyfrifo eich treth** – os derbyniwn eich Ffurflen Dreth erbyn 31 Hydref 2009, neu os cyflwynwch ar-lein, byddwn yn gwneud eich cyfrifiad ar eich rhan **a** dweud wrthych faint sy'n rhaid i chi ei dalu (neu faint fydd eich ad-daliad) cyn 31 Ionawr 2010. Ond os ydych am gyfrifo eich treth, gofynnwch i ni am y *tudalennau Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth a'r nodiadau*. Bydd y *nodiadau* yn eich cynorthwyo i gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus i ni neu'n ad-daladwy i chi a ph'un a oes angen i chi wneud taliadau ar gyfrif.

## Ad-dalu neu wrthbwyso treth

1 Os cawsoch ad-daliad treth incwm neu os gwrthbwyswyd treth gennym ni neu'r Ganolfan Byd Gwaith yn 2008-09, nodwch y swm

£ . 0 0

## Os nad ydych wedi talu digon o dreth

Defnyddiwch y slip talu, a amgaeir gyda'r datganiad nesaf (neu nodyn atgoffa) a anfonir gennym, i dalu'r dreth sy'n ddyledus.

2 Os oes arnoch dreth ar gyfer 2008-09 ac os oes gennych god treth TWE, byddwn yn ceisio casglu'r dreth sy'n ddyledus (os yw'n llai na £2,000) drwy eich cod treth ar gyfer 2010-11, oni bai eich bod yn rhoi 'X' yn y blwch

3 Os yw'n debygol y bydd arnoch dreth ar incwm heblaw enillion o gyflogaeth neu bensiwn ar gyfer 2009-10, ac os nad ydych am i ni ddefnyddio eich cod TWE ar gyfer 2009-10 i gasglu'r dreth honno yn ystod y flwyddyn, rhowch 'X' yn y blwch – *darllenwch dudalen TRG 20 y Canllaw*

## Os ydych wedi talu gormod o dreth

Byddwn yn ad-dalu'r dreth drwy ei hanfon yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu – dyma'r dull cyflymaf a mwyaf diogel. Dywedwch wrthym i ble'r hoffech i ni anfon unrhyw ad-daliad drwy gwblhau blychau 4 i 13.

Os hoffech chi gyfrannu rhan neu eich ad-daliad cyfan i elusen, yna defnyddiwch y ffurflen *Anfon eich ad-daliad treth i elusen* a gynhwyswyd ym mhecyn y Ffurflen Dreth.

4 Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu

5 Enw deiliad y cyfrif (neu enwebai)

6 Cod didoli'r gangen

– –

7 Rhif y cyfrif

8 Cyfeirnod y gymdeithas adeiladu

9 Rhowch 'X' yn y blwch o nad oes gennych gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu, neu os ydych am i ni anfon siec atoch chi neu eich enwebai

10 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych wedi nodi enw enwebai ym mlwch 5

11 Rhowch 'X' yn y blwch os mai eich cynghorydd treth yw eich enwebai

12 Cyfeiriad yr enwebai

13 a'r cod post

14 I awdurdodi eich enwebai i dderbyn unrhyw ad-daliad, rhaid i chi lofnodi yn y blwch. Ni fydd llungopi o'ch llofnod yn gwneud y tro

## Eich cynghorydd treth, os oes gennych un

**15** Enw eich cynghorydd treth

**16** Ei rif/rhif ffôn ef/hi

**17** Llinell gyntaf ei gyfeiriad/chyfeiriad a'r rhif ffôn

**18** Y cyfeirnod a ddefnyddir gan eich cynghorydd ar eich cyfer chi

## Unrhyw wybodaeth arall

**19** Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon

## Llofnodi eich ffurflen a'i dychwelyd

**20** Rhowch 'X' yn y blwch os ydy'r ffurflen dreth hon yn cynnwys ffigurau a amcangyfrifwyd neu rai dros dro

**21** Rhowch 'X' yn y blwch os ydych yn amgáu tudalennau atodol ar wahân

**22** Os rhoddwch wybodaeth ffug gellir codi cosbau ariannol arnoch a gellir eich erlyn. Dylech lofnodi a dyddio'r ffurflen hon.

Mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf yn y Ffurflen Dreth hon ac unrhyw dudalennau atodol yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Dyddiad *DD MM BBBB*

Llofnod

**23** Os ydych wedi llofnodi ar ran rhywun arall, nodwch yn rhinwedd pa swydd y gwnaethoch hynny . Er enghraifft, ysgutor, derbynnydd

**24** Nodwch enw'r person y gwnaethoch lofnodi ar ei ran/rhan

**25** Os cwblhawyd blychau 23 a 24 gennych nodwch eich enw

**26** a'ch cyfeiriad

**Yn olaf**, dychwelwch eich ffurflen wedi ei chwblhau yn yr amlen a ddarparwyd.



L20665 12/08